

MATERION SIY



Gwasanaeth SIY Sir Ddinbych/Conwy

GORFFENNAF 2017, RHIFYN 1



Croeso i'n rhifyn cyntaf o'r cylchlythyr SIY, a'i bwrpas yw rhoi gwybod i chi am bolisiau ac arferion sy'n effeithio ar ddygwyr SIY yn ein hysgolion a'ch diweddarau ar unrhyw newyddion, hyfforddiant a digwyddiadau SIY.

Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol Sir Ddinbych a Chonwy

Tîm trawsawdurdod o athrawon a chynorthwywyr addysgu arbenigol yw'r Gwasanaeth SIY, sy'n rhoi cefnogaeth i ddisgyblion ethnig lleiafrifol y mae eu hiaith gyntaf yn wahanol i Gymraeg neu Saesneg. Rydym yn gweithio'n uniongyrchol â disgyblion a cholegau prif ffrwd i roi cefnogaeth a hyrwyddo arferion da.

RHAI O'R PETHAU RYDYN NI'N EU GWNEUD:

- Asesu caffael iaith disgyblion ar Saesneg gan ddefnyddio model 5 Cam LIC
- Gweithio a chynllunio ar y cyd ag athrawon dosbarth/pwnc
- Cefnogaeth 1:1/grŵp bach i rai dygwyr SIY mewn ysgolion
- Darparu ystod eang o hyfforddiant SIY i ysgolion, e.e. Gweithio gyda newydd ddyfodiaid; strategaethau SIY i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth
- Cysylltu â gwasanaethau eraill, fel sy'n briodol
- Darparu cymorth ar gyfer arholiadau TGAU Iaith Gyntaf
- Cynorthwyo ysgolion/ gwasanaethau eraill mewn cyfarfodydd gyda rhieni

YN Y RHIFYN HWN:

- Gweithio ar y cyd
- Pwy yw dygwyr SIY?
- Pwyleg - iaith y tymor
- Digwyddiadau i ddod
- Cyfarfod y tîm - Roz Mannix



Pwy yw dygwyr SIY?

'Defnyddir y term SIY i ddisgrifio grŵp amrywiol o ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin yw eu bod yn defnyddio un neu fwy o iaith heblaw'r Saesneg yn y cartref neu yn eu cymuned'.

<https://eal.britishcouncil.org>

IAITH Y TYMOR - PWYLEG

Cześć! Pwyleg yw iaith swyddogol Gwlad Pwyl, sydd â phoblogaeth o 39 miliwn o bobl. Mae yna gymunedau mawr sy'n siarad Pwyleg yn yr Ariannin, Awstralia, Belarws, Brasil, Canada, yr Almaen, Lithwania, y DU, Wcráin, yr Unol Daleithiau a Rwsia (ymysg llawer o wledydd eraill).

- Yn yr wyddor Pwyleg mae 32 llythyren, 9 llafariad a 23 cytsain
- Ni chaiff y llythrennau q, v, x eu defnyddio yn yr iaith Bwyleg fel arfer
- Mae systemau sain Pwyleg a Saesneg yn wahanol. Mae'r llafariad yn debyg ond ddim yr un fath. Mae ynganiad y llafariad a, e, i, o ac u yn debyg i Sbaeneg ac Eidaleg.
- Does dim cymalau: a, ân, the
- Mae gan Bwyleg system gymhleth o rediad. Mae ffurfiau personol yn rhedeg ar gyfer person, rhif, amser, llais a thymer. Er enghraifft, mae 15 o wahanol derfyniadau ar gyfer berfenwau.

Atalnodi

- Nodir lleferydd uniongyrchol drwy ddefnyddio llinellau. Dim ond ar y dechrau y mae eu hangen a phan fydd y cyflwynydd yn ychwanegu sylw:
-Gdzie ona jest - zapytata Ala
- Nie ma jej tutaj.
"Ble mae hi?" gofynnodd Ala. "Dydi hi ddim yma."



WYDDOCH CHI...?

Yn ysgolion Sir Ddinbych a Chonwy, mae dros 40 o wahanol ieithoedd yn cael eu siarad.

If you talk to a man in a language he understands, that goes to his head. If you talk to him in his own language, that goes to his heart.

Nelson Mandela

OES GENNYCH CHI DDIDDORDEB MEWN CLYWED RHYWFAINT O EIRIAU A THERMAU MEWN GWAHANOL IEITHOEDD? EWCH I EDRYCH AR WEFAN 'NEWBURY PARK PRIMARY SCHOOL' AM IAITH Y MIS:

<http://www.newburyparkschool.net/langofmonth/index.html>



O fis MEDI 2017, bydd modd i chi hefyd gysylltu â'r gwasanaeth SIY drwy wefan CSDd. Ceir rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Gweithio ar y cyd ag Ysgol Y Faenol i ddatblygu ystafell ddosbarth gyfeillgar ar gyfer SIY

Mae addysgu partneriaeth, lle mae'r athro SIY arbenigol yn gweithio gydag athro prif ffrwd i gynllunio a chyflwyno gwersi ar y cyd, yn ffordd wych o ddatblygu ystafell ddosbarth sy'n gyfeillgar ar gyfer SIY. Mantais y model addysgu partneriaeth yw bod yr athro SIY arbenigol yn modelu strategaethau addysgu a dysgu fel bod yr athro prif ffrwd yn dod yn fwy hyderus ynghylch ystyried cynnwys iaith y cwricwlwm wrth gynllunio, ac yn arfer fwyfwy gyda defnyddio strategaethau addysgu a dysgu sy'n cefnogi datblygiad iaith dysgwyr SIY.

Dyma ychydig o sylwadau gan ddisgyblion yn Y Faenol, ar ôl y cydweithio hwn:



"It was interesting!"

"I was a problem solver!"

"I had fun learning"

"No paper and no writing!!"

"It was a nice activity because there was more talking"

"I helped others and I liked working with someone different"



CWRDD Â'R TÎM...

ROZ MANNIX, CYDLYNYDD SIY



Ymunodd Roz â'r gwasanaeth SIY yn 2002 ac mae wedi bod yn gydlynnydd SIY ers 2007. Cyn symud i'r gogledd, bu'n byw mewn sawl man, gan gynnwys yr Almaen ac Israel. Roedd ei chariad at deithio yn ennyn ei diddordeb mewn gwahanol ieithoedd a diwylliannau.

Pan nad yw hi'n gweithio, mae Roz yn mwynhau cerdded a darganfod cefn gwlad hyfryd leol.



GWYLIAU CREFYDDOL MEHEFIN-HYDREF 2017:

- 26 Mehefin: Eid-al-Fitr
- 20 Medi: Navaratri
- 30 Medi - Yom Kippur
- 19 Hydref - Diwali/Deepavali

DYDDIADAU I'R DYDDIADUR:

*HYDREF 16 - EAL AND EQUALITY IN A
CHANGING WORLD, MANCHESTER*

http://nassea.org.uk/event/eal-equality-in-a-changing-world-a-national-nassea-conference/?instance_id=2

GWEFANNAU DEFNYDDIOL:

- <http://www.collaborativelearning.org/>
Prosiect Dysgu Cydweithredol - rhwydwaith i athrawon rannu adnoddau sy'n hyrwyddo sgysrsiau ac sy'n rhoi mynediad i ddysgwyr SIY
- <https://eal.britishcouncil.org/>
Mae'r EAL Nexus yn safle a sefydlwyd gan y Cyngor Prydeinig i ddarparu sylfaen adnoddau o ddeunyddiau a chynngor am ddim i athrawon, myfyrwyr a rhieni.
- <http://www.fairfields.hants.sch.uk/network-eal/eal-resources/>

MAE CROESO I CHI GYSYLLTU Â'R GWASANAETH SIY GYDAG UNRHYW SYLWADAU/AWGRYMIADAU,
NEU OS HOFFECH CHI GAEL UNRHYW WYBODAETH BELLACH: roz.mannix@denbighshire.gov.uk